

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir y cyfarfod ar Zoom  
Nos Fawrth, Chwefror 9, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

## AGENDA

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

Bydd Mr Antony D.Ll. Griffiths, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymuno yn y cyfarfod i son am yr helynt dŵr yn llifo o'r goedwig tuag at dai Bro Cymmer.

### Gweddi

#### 1. Ymddiheuriadau:

#### 2. Datgan diddordeb:

#### 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 12, 2021

#### 4. Materion yn codi o'r cyfarfod Ionawr 12, 2021

11.c. Galwad ffôn (15/1/2021) oddi wrth PC Gareth Jones yn rhoi gwybod bydd sylw yn cael ei roi i'r goryru wrth Ysgol Llanelltyd.

#### 5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu [ratingwales@voa.gsi.gov.uk](mailto:ratingwales@voa.gsi.gov.uk). Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (13/1/2021) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at Eisteddfodau'r dyfodol: Sir Dinbych 2022, Sir Gaerfyrddin 2023 a Maldwyn 2024.

c. Llythyr (14/1/2021) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

d. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Tarian Cymru, Marie Curie, Tenovus Cancer Care, Hope House Children's Hospices (Tŷ Gobaith), Urdd Gobaith Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Cerebral Palsy Cymru (gynt yn Canolfan Therapi Plamt Bobath Cymru), Dawns i Bawb.

Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2020-21. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o dan adran 137(1) ac (3) £8.32, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.32 x 386 = £3,211.52.

Arian rhoddwyd yn 2019 / 2020:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd - £100

Ambiwlans Awyr Cymru - £150

Cymdeithas Y Dydd - £50

Ysgol Feithrin Dolgellau - £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):

Cwmni Theatr Bar Caws Cyf - £50

Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 - £50

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50

Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):

Neuadd Bentref Bontddu: - £500

Neuadd Bentref Llanelltyd - £500

Cyfanswm: £1,600

Rhoddwyd £100 i gronfa Tarian Cymru (grŵp sefydlwyd i godi arian ar gyfer offer PPE). Rhoddwyd £100 i Marie Curie - 14/7/2020.

dd. Llythyr (13/1/2021) oddi wrth BT yn rhoi gwybod bod gwaith trosglwyddo ciosg 01341430225 i'r Cyngor wedi ei gwblhau a'r Cyngor fydd perchenog cyfreithiol y ciosg.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Bydd y ciosg yn un o asedion y Cyngor. Mi fydd angen ei yswirio?

e. Llythyr (14/1/2021) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried codi trethi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022. Os ydym am gadw i'r Treth Cyngor Band D byddai modd cynyddu'r praesept o £7,500 i £8,000.

f. Bil (16/1/2021) am £197.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2021.

ff. Derbyniwyd (21/01/2021) £100.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at osod beddfaen ar y diweddwr Anne Roberts a Brenda Elizabeth Roberts.

g. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2021: £11,412.42. (29/01/2020: £9,789.04).

## **6. Archwilio**

a. Llythyr (24/1/2021) oddi wrth BDO. O'r wybodaeth rhoddwyd iddynt yn dangos cynnydd mewn Incwm o fewn costau eitem 'Arall', maent angen dadansoddiad o'r derbyniadau 'Arall' am 2018/19 a 2019/20.

Yn 2018/19 roedd eitem 'Arall' yn £330 ac yn cynnwys:

£30 oddi wrth Commonwealth War Grave Commission. Swm rydym ei dderbyn pob tair blynedd tuag at gynnal a chadw dau fedd – Gnr. G. Jones a Capt. Evan Williams.

Rhoddwyd copi o gyfrif banc yn dangos y swm – 30 Hydref tan 29 Tachwedd 2018.

Rhoddwyd copi o Chofnodion Rhagfyr 8, 2015 (tudalen 1) a Chofnodion Ionawr 12, 2016 (tudalen 1) yn rhoi'r manylion.

£300 – Siec rhoddwyd fel rhodd i Ysgol Gynradd Bontddu yn 2015 ond ni chafodd ei gyflwyno i'r banc ac roedd angen ei ganslo o'n cyfrifon.

Rhoddwyd copi Gwariant 2017-2018 yn diweddu Mawrth 31, 2018 yn dangos nid oedd y siec yn cael ei chyflwyno.

Yn 2019/20 roedd eitem 'Arall' yn £706.75 ac yn cynnwys:

£24.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Roedd y swm yn ad-daliad i gywiro camgymerid o dalu dwywaith mewn mis y dreth tuag at doiledau Bontddu. Mae'r swm yn cael ei dalu'n fisol.

Rhoddwyd copi o Gofnodion Medi 10, 2019 (tudalen 2)..

£682.75 oddi wrth HMRC. Roedd yn ad-daliad TAW am y cyfnod 1/3/2017 – 31/10/2019.

Rhoddwyd copi o'n cais am y taliad.

Roedd angen esboniad ar falans eitem 'Gweinyddu' ar gyfer 2019 2020 a 2018/2019.

Rhoddwyd y manylion iddynt.

Anfonwyd y wybodaeth iddynt ar 27/1/2021. Roeddynt ei angen cyn 15/2.2021.

b. Llythyr (25/1/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r cynghorau paratoi eu cyfrifon blynyddol 2020-21 gan ddilyn amserlen 2019/20 er trafferthion mae effaith pandemig yn ei roi.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/1/2021) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae Cofrestrfa Tir EM (HM Land Register) yn y broses o gasglu data i gofrestru holl dir cyrff sector cyhoeddus erbyn 2025 (tir sydd mewn dwylo preifat erbyn 2030). I gynorthwyo yn y dasg mae holiadur angen

ei gwblhau.

Mynwent Llanelltyd.

b. Llythyr (21/2/2021) oddi wrth Gethin Williams. Wedi iddo wneud ymoliadau gyda'r aelodau os oedd problemau dŵr tu ôl i dai Bro Cymer, cafodd wybod bod dŵr yn llifo trwy'r stad ac mae hyn wedi digwydd ar ôl torri coed. Mae disgwyl bydd Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn trafod y mater ar y safle (21/1/2021). Mae Gethin o'r farn pryd mae coed yn cael eu torri mae dŵr yn llifo i dai ac eiddo bobl. Mae rhywbeth tebyg wedi digwydd yn Bontddu. Mae angen gwahodd Swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru i'n cyfarfod.

Anfonwyd llythyr (21/1/2021) i Chyfoeth Naturiol Cymru yn gwadd Swyddog i ein cyfarfod nesaf i egluro sut maent am gymryd mesurau ni fydd dŵr yn llifo o'r goedwig eto.

c. Llythyr (25/1/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau Agenda Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 3/2/2021 am 7.00yh ar Star Leaf. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredinol cynhalwyd 2/12/2020.

Llythyr (26/1/2021) gyda linc Star Leaf i'r cyfarfod.

Anfonwyd y wybodaeth manylion i'r aelodau.

ch. Llythyr (1/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Chwefror.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (3/1/2021) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Maent wedi cael ymholiad gan yr heddlu ynglŷn â physt terfyn y pentref i'r Gogledd o Lanelltyd ger stad Bro Cymer. Nid yw'r pellter rhwng y ddau derfyn (Gogledd a De) ddim yn cydymffurfio gyda 'traffic order' yr heddlu, ac mae ei weld bod y pyst wedi cael ei symud rhyw 50m yn agosach i'r pentref rhyw bryd yn y gorffennol.

Maent angen gwybod oes cof gan rhywun pryd a pham cafodd y pyst eu symud

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Anfonwyd llythyr (26/1/2021) i'r aelodau ynglŷn â phroblem dai i drigolion Gwynedd a thai gwyliau / ail gartrefi. Amgáu roedd dau adroddiad sydd wedi'i mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar:

1. Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27
2. Adroddiad o waith ymchwil manwl ynglŷn â defnydd o dai fel cartrefi gwyliau.

Bwriad y Cyngor ydi perswadio Senedd Cymru i weithredu a deddfu ar yr argymhellion.

Mae'r ddau adroddiad yn rai cynhwysfawr a disgwylir aelodau roi ychydig o'u hamser i'w darllen. Mae Cyngorwyr Gwynedd yn sylweddoli fod y sefyllfa dai yn echrydus ac yn benderfynol i weithredu.

b. Llythyr (18/1/2021) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn pryderu am sefyllfa dai yn Gwynedd gyda phrisiau o afael pobl leol. Amgáu mae llythyr wedi ei baratoi i anfon i Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Tai a Llywodraeth, Gweinidog y Gymraeg, ac Arweinydd Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater ac awgrymiadau sut i ddatrys y broblem.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (30/1/2021) oddi wrth Cyngor Tref Abermaw. Mae'r Cyngor wedi comisiynu dogfen ar werth busnesau hunan-darpar (self-catering) yng Ngwynedd, yn arbennig i Y Bermo. Mae'r ddogfen yn ymateb i bapur cafwyd ei chyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd dan y teitl 'Gwaith ymchwil tai gwyliau'. Doedd y papur ddim yn rhoi gwybodaeth fanwl ar y gwahaniaeth rhwng busnesau hunan-darpar sy'n dod a chyllid fewn i'r sir ac ail gartrefi. Felly, cyflwynwyd adroddiad byr i'r Cyngor ar Ionawr 26 oedd yn cynnwys adroddiadau a gwerth economaidd sy'n dod o'r diwydiant twristiaeth. Mae papur mwy manwl yn cael ei pharatoi. Yn y cyfamser penderfynodd y Cyngor i rannu'r adroddiad pur i ehangu'r trafodaethau sydd eisoes yn cymryd lle.

Anfonwyd copi o'r llythyr a'r dogfennau i'r aelodau.

## **11. Materion Brys**

a. Mae angen 2 aelod newydd i'r Cyngor – mae angen 9 aelod.. Bydd angen trefnu Rhybudd. Bydd angen hefyd cyfethol sy'n golygu i aelodau'r Cyngor ethol ymgeisydd trwy bleidleisio.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc

-----